

UN O'N ffolineba' diweddara' ni acw fu prynu cwpan a soser mewn ocsiwn, cwpan heb glust iddo, nad yfodd yr un enaid byw yr un glyfniad o de ohono 'rioed, sydd bellach mewn gwth o oedran ac a dreuliodd yn agos i ddau gant a hanner o flynyddoedd yn segur mewn cist ar waelodion Môr De China.

Yr Oes Aur yn hanes Holand oedd hi, dyddiau llewyrch a llwyddiant Cwmni'r East India, gyda phorthladd Batavia yn Java, un o ynysoedd Indonesia (Djakarta ydi'r enw arno bellach) yn bencadlys gweinyddol y masnachu prysur rhwng yr Is-Almaen a China.

Am hanner awr wedi tri ar y 3ydd o Ionawr 1752, un diwrnod ar bymtheg wedi gadael Canton, cerddai'r Capten Morel ar ddech y 'Geldermalsen'. 'Roedd pethau'n gweithio fel wats, y môr yn dawel, y tywydd yn braf, awelon ysgafn o'r gogledd yn llenwi'r hwyliau.

Am chwech o'r gloch, ychydig cyn iddi dywyllu, dringodd un

## O dan y môr a'i donau mae yna aml i drysor

Profiad WILLIAM OWEN

o'r criw i fyny un o'r mastiau. Na, 'doedd dim arwydd tir yn unlle . . . eto'i gyd 'mhen yr awr yr oedd y llong wedi taro rîff.

Erbyn hanner nos 'roedd hi a'i chargo wedi suddo. Cant a deuddeg oedd cyfanswm y criw gwreiddiol. Deuddeg ar hugain yn unig a gyrhaeddodd, neu a lusgwyd. i Batavia yn y bada' achub 'mhen yr wythnos . . .

Ac ar waelod Môr De China y mae'r 'Geldermalsen' o hyd wrth reswm eithr ryw flwyddyn a hanner yn ôl fo godwyd peth o'i chargo, yn arbennig yr awr yr oedd yn ei gario, ynghyd â rhai miloedd o ddarnau porslen ac yr oedd rheini mor ymddangosiadol ffres â phan adawsant y ffatri yn Kiangsi, cyn eu cludo i Ganton yn 1751.

\* \* \*

## DATRYN DIRGELWCH B. M. LEWIS, ARTIST

Gan ELIS GWYN

YR OEDD y Golygydd yn iawn. 'Dim ond iti holi', meddai, 'ac mi ddaw ateb'. Mi ddaeth hefyd. 'Hyd nes daw goleuni ynghylch B M Lewis' meddwn yn rhifyn Mawrth Y Casglwr. Wedi methu cael dim gwybodaeth yr oeddwn ynghylch darlunydd Rhys Lewis ac yn cynnig hyd yn oed mai Daniel Owen ei hun ydoedd.

Pan ddaeth Y Casglwr o'r wasg, y cyntaf i ymateb oedd Hywel Gwynfryn, a cheisiwyd cael sgwrs ar y mater ar Helo Bobol rhyw fore am chwarter i wyth. Gan mai hen weiran-bigog rydlyd sy'n cysylltu'r ffôn yma â Chaerdydd, bu'n rhaid rhoi'r gorau i'r sgwrs oherwydd cleciadau ac ebychiadau myngys y 'lein'. Cawsom gynnig arall arni ymhen awr, ond aeth hwnnw'n fflwt hefyd.

Er hynny, yr oedd un gwrandawr wedi clywed digon i ymateb ar unwaith, a bore trannoeth cefais lythyr gan Mrs E Hughes, o Awelon, Rhydyclafdy, Pwllheli, gyda'r wybodaeth syfrdanol:

"Roeddwn yn nabod B M Lewis, sef Benjamin Morris Lewis. Cafodd ei eni yn Glanrafon Rhydyclafdy ac mae ei fedd yn Penrhos ger Pwllheli. Bu'n gweithio yn Llundain ar hyd ei oes fel 'surveyor', ac yna ymddeol i Bodwen, Penrhos. Ei brif ddiddordeb oedd gwneud lluniau ac etching; roedd yn gywraint gyda brass. Bum yn gweithio gydag ef a'i wraig. Roedd hi yn gantores

gweddol enwog sef Susanah Pierce, genedigol o Bryn-crug ger Dolgellau. Roedd yna fab a merch — y ddau wedi marw, ond roedd gan Owen Lewis (y mab) un ferch. Gweithiai ef fel 'surveyor' yn Llandudno!"

\* \* \*

DYWEDODD Mrs Hughes wrthyf wedyn ei bod yn cofio B M Lewis yn dangos copi o Rhys Lewis iddi ac yn dweud: 'Fi wnaeth yr illustrations i hwn'. Doeddwn innau fawr feddwl fod arlunydd anhysbys Rhys Lewis yn frodor o Lŷn ac wedi byw o fewn deng milltir imi am bymtheng mlynedd ar ôl ymddeol. Bu farw yn 1940, ond gan ei fod wedi ei eni yn 1862, sef canrif a chwarter yn ôl, mae'n perthyn i'r oes o'r blaen, fel petai.

Onibai am ffeithiau eglur Mrs Hughes a thystiolaeth y garreg fedd byddwn yn dal i leoli B M Lewis yn oes Daniel Owen, er y gallwn fod wedi ei basio ar y stryd ym Mhwlheli lawer gwaith. Ond eto yr oedd yntau wedi byw yng nghyfnod Daniel Owen ac yn 23 oed pan gyhoeddwyd Rhys Lewis.

Dywedodd Mrs Hughes hefyd mai sadleriaid oedd y teulu, a bod ganddynt gyfrif o'u hachau yn ôl at 1700. Ychwanegodd fod Benjamin wedi ennill ar arlunio yn yr Eisteddfod Genedlaethol, ac os caf ddal i ddyfalu, hwyrach fod y ffaith honno'n gam tuag at ddatrys y dirgelwch arall: sut y daeth y llanc o Rydyclafdy i gysylltiad â Hughes a'i Fab, a pham y dewiswyd ef i ddarlunio Rhys Lewis?

na chaiff un ohonyn nhw eu bedyddio i ni! . . . .

\* \* \*

MAE 'NA ôl-nodiad i'r stori hefyd. Fe soniais gynna' am borthladd Batavia yn Java. 'Roedd pob llong o Holand yn y ddeunawfed ganrif yn galw yno ar ei ffordd i Ganton ac yna wedyn ar ei ffordd yn ôl. A newydd sylweddoli yr ydw' inna' mai Batavia, yn od iawn, oedd enw gwreiddiol y tŷ acw ym Mhorth y Gest lle 'rydan ni wedi byw ers un ugain mlynedd bellach, cyn ei newid yn ddiweddarach, gan rywun, i'w enw presennol, 'Trem Foel'.

Cyn berchennog, un o hen gapteiniaid y Port wedi hen arfer mynd fforin, a roes yr enw cynta' iddo, siŵr o fod. Ac mi ddalia' inna fod y ddau ddarn o borslen Nanking sydd acw yn llawer mwy cartrefol bellach o sylweddoli eu bod yn dod i derfyn eu rhawd ddaearol yn ôl yn 'Batavia' — petai o ddim ond Batavia o ran enw felly!

## AR WERTH

WYNNE, Syr John: *The History of the Gwedir Family (golygydd gan Daines Barrington)*. Llundain: B. White, 1770. Pris £50. Geraint Davies, Glanrafon, Trefdraeth, Dyfed, SA42 0TQ. Ffôn (0239) 820205.

GEIRIADUR PRIFYSGOL CYMRU, rhifynnau 1-15. Mewn cyflwr fel newydd. Pris £30 neu'r cynnig agosaf. Mrs Nora Davies, Brynmair, Muriau, Criccieth, Gwynedd. Ffôn: Criccieth 2734.

Y Traethodydd, 1880

Y Geninen, 1886

Y Gwlydiydd, 1835 (Ebrill yn eisiau)

Transactions...Cymmrodorion. 1941

Calendar of Wynn (of Gwydir) Papers 1515-1690. 1926

The National Library of Wales 1911-1937

Leek sand Daffodils. Thomas Jones. 1942

Syr Herbert Lewis 1858-1933 (gol.) K. Idwal Jones. 1958

A Church History of Wales. J.W. James. 1945

Adlais odlau. W.D. Williams. 1939

Yr yr ardd, sgysiaid radio Tom Jones. 1947

Peiriannau, a cherddi eraill. J.M. Edwards. 1947

Tir y dyneddon. E. Tegla Davies. Arg. 1af

Addysg. W. Moses Williams (Cyfres Pobun) 1944

Chwaryddion Crwydrol. F.G. Payne. 1943

Hen Gyflwyniadau (Gol.) Henry Lewis. 1948

Wil Brydydd y Coed. (Gol.) Thomas Jones. 1949

Mrs Mary Ellis, 4 Laura Place, Aberystwyth, Dyfed. Ffôn: Aberystwyth 617171.